

Gwasanaeth i gofio John Penri: Piwritan, Ymneilltuwr, Cenedlgarwr a Merthyr

Rhagarweiniad

Heddiw yn ein gwasanaeth, rydym am gofio gyda diolch am fywyd John Penri a anwyd yng Nghefn Brith ar lethrau Mynydd Epynt yn 1563. Bu'n ffodus i dderbyn addysg gynnar yn nhref Aberhonddu cyn mynd ymlaen i Goleg Peterhouse, Caergrawnt a choleg Neuadd St Alban yn Rhydychen. Prin fu ei ymweliadau â Chymru wedi hynny ac yn Lloegr y treuliodd y gweddill o'i oes fer, yn ysgrifennu ac yn cyhoeddi pamffledi a feirniadau awdurdodau eglwysig ei ddydd.

Yn 1588 priododd Eleanor Godley, ganwyd pedair merch iddynt a gafodd enwau oedd yn tystio i ffydd Biwritanaidd eu tad: Deliverance, Comfort, Safety a Sure. Am gyfnod aeth i'r Alban i osgoi erledigaeth ac yno, daliodd ati i gyhoeddi ei bamffledi. Wedi dod yn ôl i Lundain yn 1592 ymunodd â'r Ymwahanwyr o dan arweiniad Henry Barrow.

Yn 1593 ac yntau ond yn ddeg ar hugain oed fe'i daliwyd a'i ddedfrydu i farwolaeth ac yna fe'i crogwyd. Ni chafodd fawr o sylw yn union wedi ei farwolaeth ond yn ddiweddarach daeth i gael ei ystyried gan Biwritaniaid ac Ymwahanwyr fel un o'u pencampwyr. Heddiw, wrth edrych yn ôl ar hanes Cristnogaeth Brotestanaidd Cymru, cyfrifir John Penri fel arwr a safodd yn gadarn dros yr hyn a gredai.

Croeso i'r oedfa.

Wrth i chi deithio yma heddiw, a gawsoch eich stopio a'ch holi? Oeddech chi'n poeni y gallech chi gael eich dirwyo neu eich halltudio dim ond am ddod yma i addoli? Mewn oes lle mae gennym y rhyddid i ddod at ein gilydd i addoli Duw ac i wrando ar bregeth, mae hi'n annodd i ni ddychmygu sut oedd hi ar John Penri a'i gydoeswyr yn ystod ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg. Yn ein gwasanaeth heddiw, rydym am gofio John Penri y Piwritan, yr Ymwahanwr, y cenedlgarwr a'r merthyr. Cawn glywed hefyd gan yr Apostol Paul, un a oedd ar dân dros ei Waredwr ac yn fodlon herio'r drefn, un oedd yn caru ei genedl ei hun ac un oedd yn fodlon marw dros ei Arglwydd.

Gadewch i ni yn gyntaf gyflwyno'r gwasanaeth i Dduw mewn gweddi.

Gweddi i gyflwyno'r gwasanaeth

Gweddiwn

Dad nefol

Diolch i Ti am y rhyddid sydd gennym

i ddod ynghyd i'th addoli di heddiw,

yn ein ffordd ein hunain ac yn ein hiaith ein hunain.

Bydd yma gyda ni

drwy dy Ysbryd Glân.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu

Ein Harglwydd a'n Gwaredwr,

Amen.

Emyn 1: 258 O Nefol Addfwyn Oen

Darlleniad: 2 Timotheus 4:1-7 (y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig)

Wrth edrych yn ôl ar gyfraniad John Penri y peth cyntaf a gofiwn yw mor bwysig iddo oedd diogelu'r rhyddid i bob Cristion i feithrin ei ffydd bersonol ei hun. Yn ei lythyr at y Cristnogion yn Rhufain, mae'r Apostol Paul yn pwysleisio natur bersonol ffydd.

'Os wnei di gyffesu â'th wefusau, Iesu ydy'r Arglwydd, a chredu yn dy galon fod Duw wedi'i godi yn ôl yn fyw ar ôl iddo farw, cei dy achub.'

Roedd John Penri yn rhan o fudiad y Piwritaniaid oedd yn credu'n gryf mai ymateb personol unigolion i Grist oedd sail i wir ffydd, nid credoau a disgyblaeth yr Eglwys. Fel yr oedd y Diwygiad Protestanaidd wedi tyfu o anfodlonrwydd dwfn gydag Eglwys Babyddol y cyfnod, tyfodd y mudiad Piwritanaidd hithau o anfodlonrwydd dwfn gydag Eglwys Loegr a'i hawydd i ddeddfu a rheoli ar faterion cred. Credai'r Piwritaniaid yng ngallu yr unigolyn i ddod at Dduw drwy Iesu Grist heb yr angen am gyfryngwr arall. Er bod Piwritaniaeth yn fudiad lleiafrifol ym Mhrydain yn ystod oes John Penri, tyfodd yn fwy dylanwadol yn ddiweddarach.

Efallai fod llawer ohonom wedi dechrau mynd i oedfa ac ysgol Sul yn blant am fod rhywun wedi ein cymell yno. Yr hyn sy'n bwysig wrth gwrs yw bod ffydd yn dod maes o law yn rhywbeth rydym yn ei fabwysiadu ein hunain yn hytrach na dim ond etifeddiaeth. Mae gan Dduw ddiddordeb personol ym mhob un ohonom ac mae cyfle gan bob un ohonom i berthyn iddo ac i fod yn ddisgyblion i Grist.

Emyn 2: 613 O Arglwydd Dduw ein tadau

Yr ail beth a gofiwn am John Penri yw ei bwyslais ar ryddid i Gristnogion addoli yn rhydd rhag ymyrraeth y Wladwriaeth a'r awdurdodau eglwysig. Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, roedd perthynas yr Eglwys a'r Wladwriaeth wedi tyfu mor agos nes

bod Cristnogaeth yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ddarostwng pobl a'u rheoli. Roedd hi'n cymryd dewrder aruthrol i John Penri fynegi ei feirniadaeth o'r Eglwys, nad oedd hi'n cadw'n driw i alwad Duw a bod ei harweinwyr yn llwgr. Ei brif arf oedd y wasg argraffu oedd yn fodd effeithiol iddo ledaenu gwybodaeth a rhannu syniadau yn eang a gwnaeth Penri ddefnydd helaeth o'r cyfrwng, er mor beryglus oedd hi i wneud hynny.

Ym mhob oes, mae angen i ni fel eglwysi edrych o'r newydd ar ein bywyd a'n tystiolaeth a phwyso a mesur yn ofalus yr hyn a wnawn yng ngoleuni Gair Duw a'r Ysbryd Glân. Rhaid sicrhau fod yr eglwys yn cael ei diwygio yn barhaus fel nad nad yw'n mynd ar gyfeiliorn a bod ei bywyd a'i gwaith yn dystiolaeth effeithiol i Iesu Grist.

Emyn 3: 852 Dros Gymru'n gwlad

Y trydydd peth a gofiwn am John Penri oedd ei gariad at ei gyd-Gymry a'i ddyhead iddyn nhw glywed Gair Duw wedi ei bregethu. I'r Apostol Paul, roedd caru ei genedl yn golygu dyheu i'w gydwladwyr ddod i adnabod yr Arglwydd Iesu fel Gwardwr.

'Frodyr a chwiorydd annwyl, dw i'n dyheu o waelod calon ac yn gweddio ar Dduw y bydd fy mhobl, yr Iddewon, yn cael eu hachub.'

Ac os oedd ei gydwladwyr i glywed am Iesu, yna roedd Paul yn sylweddoli mor bwysig oedd hi i roi cyfle i bobl glywed yr Efengyl yn cael ei phregethu.

'Ond wedyn, sut mae disgwyl i bobl alw arno os ydyn nhw ddim wedi credu ynddo? A sut mae nhw'n mynd i gredu ynddo heb glywed amdano? Sut mae nhw'n mynd i glywed os ydy rhywun ddim yn dweud wrthyn nhw'

Ymddengys na fu John Penri yn byw nac yn pregethu fawr ddim yng Nghymru, ond fel llawer o Gymry alltud roedd ei gariad dros ei wlad yn gryf. Cyhoeddodd bamffledyn oedd yn tynnu sylw at y diffygion mewn bugeilio ym mhlwyfi Cymru dan y drefn Anglicanaidd gan bwysleisio'r angen am bregethwyr o safon fyddai'n medru cyhoeddi'r Efengyl i'r Cymry yn eu hiaith eu hunain.

Un o wendidau sustem plwyfi y cyfnod oedd y gallai offeiriad gael yr hawl i fywoliaeth mewn plwyf a chasglu'r degwm yno heb fyw yno na gofalu am y plwyfolion. Canlyniad hyn oedd y cai pobl y plwyf honno eu hesgeuluso a phan byddent yn cael y cyfle i glywed pregeth byddai hynny'n aml gan giwrat annysgedig.

Ein braint ni yng Nghymru heddiw yw cyhoeddi'r Efengyl am gariad Duw yn Iesu Grist. Mae gwarantu fod hyn yn digwydd yr un mor bwysig os nad yn bwysicach heddiw nag yr oedd yn ystod cyfnod John Penri. Mae angen pregethwyr a phobl sydd a doniau cyfathrebu da i gyflawni'r gwaith. Ond mae angen darganfod ffyrdd i alluogi a hyderu holl aelodau'n heglwysi hefyd i fedru sgwrsio'n naturiol am eu ffydd o ddydd i ddydd.

Petaem yn cyfarfod John Penri heddiw, byddem yn siwr o synnu at ei ddaliadau tanbaid a byddem yn cael ein tramgwyddo gan ei ddull diflewyn ar dafod. Canlyniad hyn oedd iddo gael ei arestio gan awdurdodau ei ddydd oherwydd ei gred. Petai rhywun yn eich cyhuddo chi a fi o fod yn Gristion heddiw, tybed a fyddai digon o dystiolaeth i'n dyfarnu'n euog? Dychmygwch petai gennym mymryn o sêl John Penri dros rannu'r Efengyl gyda'n Cyd-gymry yr effaith a gai hynny ar ein heglwysi a'u tystiolaeth heddiw.

Dydy'r Beibl ddim yn dweud wrthym sut a phryd y bu farw Paul ond mae hi'n amlwg o'i eirau i Timotheus ei fod yn gweld y byddai'n siwr o golli ei fywyd oherwydd ei safiad dros ei Arglwydd.

‘Dwi wedi cyrraedd pen y daith. Mae fy mywyd i fel petai wedi’i dywallt ar yr allor fel diodoffrwm. Mae’r amser i mi adael y byd yma wedi dod.’

Roedd John Penri yn gwybod y byddai ei safiad yntau yn erbyn awdurdodau sifil ac eglwysig ei ddydd yn siŵr o arwain at ei farwolaeth, ac eto, daliodd ati hyd y diwedd i brotestio. Mewn llythyr a ysgrifennodd at ei ferched ar ddiwedd ei oes, eglurodd Penri iddynt ei fod yn barod i farw dros ei gred a’i egwyddorion. Ac fel yr Apostol Paul, mae’n siŵr y gallai ddweud: *‘Dw i wedi ymladd yn galed, dwi wedi rhedeg y ras i’r pen, a dw i wedi aros yn ffyddlon.’*

Wrth ddiolch am fywyd a thystiolaeth John Penri, rhaid i ni gydnabod fod y syniad o ferthyrddod yn ddieithr iawn i ni heddiw. Yr hyn y medrwn ei ddeall yw’r alwad ar bob un ohonom i roi ein bywydau cyfan i Dduw er mwyn iddo ein defnyddio ni yn ei wasanaeth. Rydym i gyd yn gyfarwydd â chyfieithiad Syr John Morris Jones o emyn gan Frances R. Havergal:

*‘Cymer Arglwydd f’einioes i
i’w chysegru oll i Ti.’*

Wrth ddiweddu’r oedfa yma o ddiolch am fywyd John Penri, gadewch i ni gymryd y cyfle o’r newydd drwy gyfrwng yr emyn yma i gyflwyno pob rhan o’n bywydau fel offrwm i Grist.

Emyn 4: 767 Cymer, Arglwydd, f’einioes i